Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon
Caernarfon Royal Town Council
Pwyllgor Cynllunio / Planning Committee, 6.00yh, 012/10/2021
Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting

Yn bresennol / Present:
Y Cynghorwyr / Councillors Will Lloyd Davies, Ann Hopcyn, Tudor Owen (Cadeirydd / Chairman), Richard Thomas

1. **Ymddiheuriadau / Apologies**

Y Cynghorwyr / Councillors Brenda Owen, Keith Jones, Stuart Sage.

2. **Datgan Buddiant Personol / Decleration of Personal Interest**

Dim / None

3. **Eitem Brys / Urgent Item**

Dim / None

4. **Gohebiaeth / Correspondence**

Derbynwyd er gwybodaeth lythyr gan Howard Huws o Gylch yr Iaith.

5. **Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**

Rhif /Number	*Manylion /Particulars*	*Sylwadau / Comments*
C20/0494/20/LL	**Gwel Y Fenai (former Ferrodo Site And Plas Brereton),, Caernarfon, LL55 1TP** Datblygu parc gwyliau a hamdden i gynnwys 173 o borthdai gwyliau; 51 fflatiau gwyliau newydd eu hadeiladu; newid defnydd adeilad i 4 fflat gwyliau; adeiladu canolbwynt hamdden; ad-drefnu ac adnewyddu unedau diwydiannol; darpariaeth ar gyfer gwaith trin dŵr preifat; a meysydd parcio cysylltiedig, tirlunio, mynediad a ffyrdd mynediad mewnol. Development of a holiday and leisure park to include 173 holiday lodges; 51 new-build holiday apartments; change of use of building to 4 holiday apartments; a leisure hub building; re-configuration and renovation of industrial units; provision of a private water treatment plant; and, associated car parking, landscaping, access and internal access roads.	Mae'r Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r cais ar y seiliau canlynol. Mae'r datblygiad yn rhy agos at lannau'r Fennai, mae perygl o lifogydd a chredwn mai anghyfrifol byddai adeiladu mor agos at y dwr yn enwedig gyda newid hinsawdd yn arwain at cynyddu lefel y mor. Rydym yn cefnogi ac yn ategu holl bryderon Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn. Mae'r cais yn gofyn am greu datblygiad amhriodol ar safle a'i ddiffinir fel Parth C2. Yn unol ac Adran 6 o Nodyn Technegol 15 a llythyr uwch swyddog cynllunio llywodraeth dyddiedig 9fed o Ionawr 2014 ni chanietier datblygiad o'r math mewn parth C2. Credwn ymhellach bod gor-ddatblygiad o'r math yma yn peryglu safon y dwr yn y Fenai ac yn debyg o gael effaith andwyol ar ardal gwarchodaeth arbennig Y Fenai a Bae Conwy. Credwn y bydd y datblygiad yn cael effaith tirwedd a gweledol sylweddol andwol ar yr olygfa o ardal harddwch naturiol eithriadol ynys mon a'r llwybr arfordirol. Disgwyliwn I'r datblygiad cael effaith andwyol ar yr Iaith Gymraeg. Nid yw'r Cyngor Tref yn credu bo'r datblygiad arfaethedig yn unol a amcan strategol cyntaf cynllun datblygu lleol Gwynedd a

		Mon 2011-2026 (Mabwysiadwyd 2017), "SO1 Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned". Credai'r Cyngor Tref bo'r asesiad ieithyddol yn ddiffygiol gan gynnig dim byd cadarn heblaw am arwyddion dwyieithog. Er engraifft gallai 6.2.1. ddarllen "at least 90% of the jobs will be recruited locally" yn lle "it is hoped that at least 90% of the jobs will be recruited locally". Yn yr un adran gellid ymrwymo i neud y Gymraeg yn "essential" yn hytrach nac yn "key skill" wrth recriwtio ar gyfer y datblygiad gwyliau. Mae rhannau o'r asesiad ieithyddol ar goll. Mae pwynt 4.4.4 yn wag, mae pwynt 1.4.10 yn gorffen gyda pedwar marc cwestiwn! Tydi hi ddim yn eglur o'r cais os mai i'w gosod neu eu gwerthu mae'r porthdai a'r fflatiau gwyliau. Byddwn yn croesawu cais ar wahan i ad-drefnu ac adnewyddu'r unedau diwydiannol ond yn gofyn ei bod yn cael ei gefnogi gan ymchwil farchnad yn dangos y galw am unedau o'r fath ac yn ymateb yn llawn I bryderon Cyfoeth Naturiol Cymru am ymdrin a gwastraff ar y safle. Yn benodol does dim digon o fanylion ar sut y bydd y datblygwr yn ymdrin a'r asbestos ar y safle. (Unfrydol)

Daeth y cyfarfod i ben am 6.35yh / Meeting closed at 6.35pm